



Ffyngau ffrwydrol!

I've been busy with grassland fungi and attached [uchod] is a composite of some of these wonderful fungi from Chirk Castle last week [diwedd Hydref].

Debbie Evans

Roedd yn noson dda ar gyfer noson Tân Gwylt - noson sych dawel ag oer [yn Rhostryfan]. Roedd angen lapio'n gynnes a chwilio am yr hetiau a'r menyg.

Olwen Evans

Lluniau: chwith Alun Williams, uchod Debbie Evans

Gwymon bwytdwy - ar blat, mewn tabl (1)

Enw Cymraeg a Saesneg	Enw yn y Gaeleg (a'r tarddiad posib)	Nodiadau diwylliannol (cyf. o'r Saesneg)	Sylwadau Sion Roberts
gwymon bwyta, llywethau'r mor <i>Badderlocks</i> , <i>dabberlocks</i> <i>Alaria esculenta</i>	<i>Mircean</i> Nors efallai	Dim ond ar y trai isaf. Bwyteir y wythien ganol, a'r sboroffiliaid sy'n codi uwchben y gludafael (angor).	<i>Badderlocks</i> (o Balder's locks, oherwydd i ffrondiau hollt yn ymdebygu i wallt Balder, arwr Sgandinafaid)
gwymon codog mân <i>Bladder wrack</i> <i>Fucus vesiculosus</i>	<i>Propach</i> efallai "yr un sydd yn arnofio"	Canol y traeth. Fe'i defnyddir i wrteithio caeau tatws neu <i>lazy beds</i> . Weithiau i wneud te neu gwrw.	Hefyd <i>black tang</i> , <i>ladywrack</i> , <i>sea whistle</i> , <i>popweed</i> , <i>pigweed</i> .
gwymon bwyta, gwymon melys, delysg crych, lafwr piws, lawr piws, <i>carragheen</i> <i>Chondrus crispus</i> a <i>Mastocarpus stellatus</i>	<i>Cairgein</i> yr un ar y graig	Un o hoff wymonnau bwytdwy'r Gael; da i dewychu lobsgows neu bwdin. Ar greigiau ym mhen isa'r traeth.	Mae dwy rywogaeth yma: <i>Chondrus crispus</i> a <i>Mastocarpus stellatus</i> y ddwy yn dwyn yr enw <i>caragheen</i> yn y Wyddeleg (a'r Saesneg?)
morwyal rhychog, gwymon rhychog, <i>Channelled Wrack</i> <i>Pelvetia canaliculata</i>	<i>Feamainn Chìrean</i> 'gwymon crib y ceiliog'	Y gwymon uchaf ar y traeth, ni all ddioddef gormod o drochfa môr. Defnyddir i borthi gwartheg i roi sglein ar eu cotiau.	<i>Cow tang</i> – bywd i wartheg, <i>holy wrack</i>
delysg Dulse <i>Palmaria palmata</i>	<i>Duilleasg (duille-uisge)</i> "deilen dwr"	Gwymon amheuthun iawn, yn aml ar gyfer gwneud cawl tew. Ar greigiau isaf y traeth neu ar forwail.	<i>Palmaria palmata</i> : <i>palma</i> , -ae [Ll.] = lled cledr y llaw, ffurf llaw. Gwyddeleg: <i>crannogh</i>

Daeth hwn oddiwrth gyfaill o Inverness, Roddy McClean (wedi ei addasu i'r Gymraeg).gydag ychwanegiau gan Sion Roberts. Fel y gwelwch uchod, rydym yn brin iawn o luniau gwymon yn Yr Oriel..... gair i gall chi ffotograffwyr!
MWY O WYMON BWYTDWY YN Y BWLETIN NESAF

Heli môr a gwmon codog - mwy

Ym **Mwletin 99** (tudalen 2) fe drafodwyd y sylw a wnaeth Thomas Jones, Cwningaer, Niwbwrch ar 27 Mehefin 1871 am "nol heli mor a gwmon codog". Dyma beth goleuni ar ystyr posibl "heli mor":

Yn ddiweddar bu grwp bach ohonom yn troedio milltir sgwar Thomas Jones ynghanol twyni Niwbwrch (y rhan sydd bellach yn goed). Mae llawer o dyfiant naturiol y twyni (y ponciau yn iaith pobl Niwbwrch) yn dal i fod o dan y coed pin presennol, ac wrth i ni gerdded a thrafod rhai o'r planhigion digwyddodd un o'r criw, Einir Thomas (sy'n enedigol o'r filltir sgwar honno), gyfeirio at y **gorhelygen *Salix repens*** gerllaw, heb feddwl dim, wrth yr enw **heli cwn**. Mae'r gorchelygen yn gyffredin yn y pantiau gwlyb yno fel mae'n debyg roedden nhw yn nyddiau Thomas Jones. Stopiodd pawb yn stond ar eu sodlau - "heli cwn"?! Tybed ai dyma "heli mor" (sef helyg y mor) Thomas Jones? Ac os felly, pam oedd o angen ei gasglu.



Cofier mai lle di-god oedd twyni Niwbwrch yn yr 1870au (cy. **Bwletin 105**, tud. 5). Nododd brodor arall yn y cwmni, David Owens, efallai mai casglu corhelyg fel sylfaen i das wair mewn ardal o brinder llwyni a choed oedd dan sylw. Neu das **foresg** wrth gwrs fyddai yr un mor debygol yn y cyffiniau hynny. Oni fyddai dyddiad yn niwedd Mehefin yn gweddu i'r gorchwyl hwnnw (cf **yma**) ar gyfer y cynhaeaf moresg (gweler pleth). Ai nôl helyg y môr oedd gorchwyl Thomas Jones y diwrnod hwnnw efallai, nid halen o unrhyw fath. (Gwmon codog yw'r benbleth nesaf"!..(Mwy yn y rhifyn nesaf).

Duncan Brown

Ar y chwith pellaf mae Catrin Roberts, Ty'n Lon Bach, Niwbwrch ymysg ei "gafrod moresg", ac i'r dde ohoni, tudalen o lyfr cownt Thomas Jones yn rhestru sawl "pleth" bu'n gwerthu am swllt a thair (y bleth yw'r uned o ddefnydd a wneid o'r moresg i'w wnio â thannau eraill i wneud mat neu orchudd tas).

Cofiwch glicio ar y geiriau coch i gael mwy o wybodaeth

Lindysen yr ymerawdwr...

... yn fwyd i gyw cudyll coch yn Nhrwyn Cilan, Llŷn ddiwedd Gorffennaf? 2016

Gareth Jones



Chwyddiad yw hwn, manylyn o lun llawer mwy i'w weld yma. Ydych chi'n cytuno mai gwyfyn ymerawdwr sydd ym mhig y cudyll.? **Dyma lun** arall o'r lindysen hon gan Gerallt Llywelyn a dynnwyd ddechrau Awst 2014.

Barn y gwyfynwr John Harold: "Cytunaf - mae'r lliwiau yn iawn, yn y cynefin a'r tymor cywir, lindysen mawr - does na'm lot arall bosib nagoes?"

Tybir bod lliw y lindysen hon yn **aposematig** (arwydd o wenwyn neu flas achafi i ladd awch y bwydwr a thrwy hynny ei osgoi y tro nesaf). Tybed beth wnaeth y cyw cudyll wedyn...?

Hydref



dyfrlliw Leisa Gwennlian

Cynffonau wyn bach



"Ydi rhain yn gynnar?" gofynnodd Dafydd Whiteside ar ôl tynnu'r llun (chwith) ar 15 Hydref yn Penisarwaun, Arfon. Dyma sylw perthnasol o ddyddiadur Edith Holden, Solihull ar y 19 Hydref 1905, dros ganrif yn ôl: *The little new catkins are appearing*

on the Hazel-nut bushes and the Alder-trees

Ymddengys felly Dafydd nad ydynt yn gynnar!

Ychwanegodd Dafydd: "Roedd coed cyll yn drwmlwythog o gnau yn Ewys Harold, swydd Henffordd ar Sul cyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol [ddechrau Awst]". Prin oedd y cnwd wedyn yn gyffredinol - y wiwerod wedi gwneud eu gwaethaf?

Blodeuo Hwyr



A ninnau i mewn i Tachwedd ac eira ar fynyddoedd Eryri ar hyn o bryd mae ychydig blanhigion yn blodeuo'n hwyr (neu gynnar!?) ar Warchodfeydd Natur Morfa Harlech a Morfa Dyffryn - ee. caldris y gors (chwith) sydd fel arfer yn blodeuo yng Nghorffennaf ac Awst, a gold y gors (fel arfer Mawrth - Mai!)

Rhodri Dafydd

Mewnfudwr Hwyr?



Pry hofran *Syrphus vitripennis*? (neu efallai *S. ribesii* neu *S. torvus*). Roedd hwn yn ymborthi ar flodau sawrus yr eiddew wrth ymyl Frongoch, Llanfaglan, 2 Tachwedd 2016. Os mai **S vitripennis**, oedd o, mae hi'n bosibl mai mewnfudwr tramor ydoedd.


Duncan Brown

Carplog pluog yn Solihull



"What is this little fella?..." gofynnodd Sue Lindsay yn ddiweddar. [29 Hydref 2016 Solihull]. Dyma un o wir gwyfynod yr hydref. A dyma (isod) graff yn dangos ym mha fis y'i cafwyd yn ngogledd Cymru

Duncan Brown



wythnos 40 (2>8 Hydref) mae'n ymddangos gyntaf ac yn darfod gyda'r flwyddyn.

Casglwyd y data hyn rhwng 1995 a'r presennol yng Ngwelfor, Waunfawr ac Abergwyngregyn. Mae'r ffigyrau ar yr echelyn llorweddol yn dynodi wythnosau'r flwyddyn. (1-52). Fe welwch mai yn

Croesi'r Hafren yn 1754....

... dwy ganrif cyn y pontydd ac oes y deddfau lechyd a Diogelwch!

Passage across the Severn: On 25 June [1754] wind and rain that made themselves heard throughout the night did not hold out any promise of a speedy and safe passage. However, towards dinnertime, when the tide had started to flow out against the wind [gwynt felly o'r SW] and the waves, the captain decided to take the risk. More than 20 horses and an even greater number of passengers, as many as there was room for, were crammed into the ship. Another ship, belonging to the opposite side, had to return empty, as it was not allowed to take cargo or passengers from our side. The horses were so unruly during the crossing that it seemed that the ship would fly apart. This caused her to spring a leak and the waves washed over her. Passengers screamed and wailed, the sailors were hampered by the overcrowding, quite at a loss as to what to do, and complete confusion reigned. We all expected a catastrophe at any moment. This fear continued until we approached land and could with great joy jump onto the rocks to dispel the anxiety that had filled us all with consternation.

R. R. Angerstein's Illustrated Travel Diary, 1753-1755
(<http://etw.bangor.ac.uk/cy/accounts/r-r-angerstein's-illustrated-travel-diary-1753-1755>):

Yn Sir Fôn yr un diwrnod roedd y tywydd yn fwy caredig: 25th. [Mehefin 1754, Llanfechell]: *The Wind S.W. blowing very moderate, Sun shiny & ☀ fair for most part of this day.*

Dyddiadur William Bulkeley

Ewch yma i weld tywydd y mis hwnnw gan Bulkeley

Dail llwyfen fel bwyd anifeiliaid

Montargis, Ffrainc (ychydig ar ôl Medi 1814): *On our road we observed the elms in many places under the process of lopping, whilst in perfect foliage, as fodder for the sheep in winter. They are lopped once in three years; and the two intervening years they are stripped of their leaves to make an infusion for the cows. Both these operations were in full activity over a great space of country; men lopping the trees, and women stripping them.*

Birbeck, M. (1815) **Notes on a journey through France 1764-1825.**

The feeding of elm leaves to animals was one of the earliest, most widespread, and most important uses of the tree. It probably provided the motivation for the planting and importation of elm by man in prehistoric times... The basis of this preferred use of elm leaves for animal feed seems to be less any high concentration of nutritive material than the absence of noxious substances or unwanted side effects.... Elm leaves were fed to animals over much of Europe till recent times, perhaps more widely in France, Switzerland and Scandinavia than elsewhere. They were so used in England up to the present century.

The mode of utilization varied. Young leafy shoots might be lopped, made into bundles, and dried. Alternatively, the leaves might be stripped from the branches and dried. In either case, the leaves would have been fed in the dried state in earlier times. In more recent times, elm leaves have been boiled. This has been done for pigs in England up to the present century. Possibly elm leaves were processed as a sauerkraut in the central European area. Elm leaves were eaten by children in France... what pigs and children may have eaten in recent times is likely to have been a food of general consumption in earlier times.... the monks of Fountains Abbey [abbaty Sistersiaidd], in the difficult early days of their foundation, lived off cooked elm leaves from the large elm that gave them shelter.... In recent times, elm leaf meal has been used in bread making under famine conditions in central Europe.

Richens (xxxx) Elm CUP

Gweddillion hen ddyrnwr



Mae'r llun hwn yn codi'r cwestiwn sut daeth y dyrnwr hwn i orffen ei ddyddiau ar dyddyn tlawd. Pwy oedd yn darparu gwasanaeth y dyrnwr - tyddynnwyr tlawd i

ychwanegu at eu hincwm ynteu ffermwyr cyfoethog oedd yn gallu fforddio injan?

Pen y Bwlch, Gyrn Ddu, Llanaelhaearn (saeth melyn) Graham Williams (chwith); Google Earth (de)



O'r Country Diary (Y Guardian)

One thing that struck me for the first time this year was that, on a visit last month [Hydref 2016] to the hills of northern Spain, there were already Redwings feeding in the Holly woods at a time before I had seen any at all present in south-central England. Perhaps the most northerly populations of Scandinavia/Russia move south first and perhaps even move furthest. If those populations are longer-winged that might make sense. More strange is that, coming back over Biscay on the ferry, a flock of 20 or so Redwing overtook the boat going NORTH, but perhaps that's just natural selection in action....

postiad SmallCoot>>Llwyfen1

Eira cyntaf



Pedol yr Wyddfa, Tachwedd 7ed. Ychydig o eira ar y copaon.

Alun Williams

Pan oedd hi wedi bwrw eira ar Eryri cyn 13 Tachwedd ni fyddai gaeaf ag eira trwm wedyn - hy roedd yr eira [y gaeaf?] wedi cael ei erthylu. Holais mam neithiwr "thylu" talfyriad o "erthylad".

Einir Tomos (Niwbwrch)

Coed ffug Singapore




Dyma nifer o goed ffug yn Singapore (Hydref 2016).

Gwyn Williams

Dyma luniau coed eraill a dynnodd Gwyn ar ei ymweliad: **bonyn, gardd**

Pedwar llun - yr un peth



Pedwar llun yn dangos fel mae'r **cap inc afler** wedi newid dros gyfnod o 6 diwrnod, 1) Hydref 22, 2) Hydref 24, 3) Hydref 25, 4) Hydref 26.

Alun Williams

Dilyniant difyr o luniau. Mae nifer o'r rhai yn (1) **yn fwyadwy**, gan fod eu capiau yn dal yn dyn o gwmpas y goes. Mae'r tagellau yn dal yn wyn pan mae'r cap fel hyn, ond unwaith mae'r cap yn dechrau agor maent yn troi yn binc, i frown ac wedyn yn ddu, yr un pryd a gwlybyru o'r ymylon. Un ffordd o fwyta'r rhai ifanc yw eu cynhesu yn ysgafn mewn llefrith.

Iwan Roberts

Pen pysg o raeadr Derwennydd



Llun Colin Dixon (Tynnwyd y llun yn Swydd Derby, Tachwedd 5ed Wn i ddim a ydi pobl Derby yn ystyried eu hardal fel rhan o'r Hen Ogledd Cymreig erbyn hyn? Cafodd hen gerdd enwog, arwrol, waedlyd, feddwol Y Gododdin ei chyfansoddi yn yr Hen Ogledd. Wedi eu cuddio yng nghanol y gerdd hon y mae ychydig o linellau tyner a gwahanol iawn. Hiwangerdd gan fam i'w phlentyn yw'r llinellau; suo-gân sydd yn son am hela anifeiliaid y coed a'r mynydd. Tad Dinogad a'i ddau gi Giff a Gaff sydd yn hela'r anifeiliaid, ac meddai'r bardd (di-enw), mae nhw'n gwneud hynny cystal â llew. Tybed ymhle welodd y bardd lew yn y nawfed ganrif yng ngogledd Ynys Prydain?


Pa anifeiliaid yn union oedd tad Dinogad yn eu lladd felly? Y bele yw'r cyntaf y mae'r bardd yn cyfeirio ato - mae pais y ferch fach wedi ei wneud o grwyn y bele. Mae'r tad hefyd yn hela'r iwrch, y gwythwch (neu'r mochyn gwyllt) a'r hydd. Mae'r bardd yn cyfeirio at yr anifeiliad hyn mewn modd sydd yn rhyfedd i ni heddiw - mae'n ychwanegu "pen" o flaen pob un: PEN iwrch, PEN gwythwch (gwyllt-hwch), PEN hydd; ac o flaen eraill hefyd.... pen grugiar fraith (speckled grouse), pen pysg[odyn] o raeadr Derwennydd. Beth yw ystyr "pen" yn y cyswllt hwn?

Rhwng y 6ed a'r 9ed ganrif roedd llawer o siaradwyr Cymraeg a Chernyweg yn symyd i Lydaw o'u gwledydd gwreiddiol. Fe esblygodd eu hiaith yn y wlad newydd yn raddol dros ganrifoedd i Lydaweg. Y gair Llydaweg heddiw am mochyn yw *pimoc'h*, PEN-moch(yn) efallai, gair sydd yn dyddio'n ôl i gyfnod pan oedd yr ieithoedd hyn yn un iaith. Un ffordd y mae'r Gymraeg yn wahanol i'r Saesneg heddiw yw absenoldeb y fanod amhenodol - rydym yn dweud *the apple* (yr afal) ond does dim gair gennym heddiw am *an apple*. Rhaid bodlonni ar afal ar ei ben ei hun i gyfleu y fannod amhenodol (a sylwch, dyna'r gair PEN yn codi ei ben eto!). Mae'r gerdd Pais Dinogad yn dangos trwy'r geiryn bach yma bod rhyw fath o fannod amhenodol wedi bodoli yn yr iaith gynnar ond sydd bellach ar goll. Addasiad o erthygl gan y Golygydd (DB) i bapur bro dysgwyr Swydd Derby "Llais Derwennydd"

Mi gewch fwy o hanes y gân hon yma: Mi gewch chi weld y gerdd yn y testun gwreiddiol, fersiwn modern a fersiwn Saesneg yma: Mae'r bardd Tony Conran hefyd wedi cyfieithu'r gerdd mewn modd hynod o sensitif mewn Saesneg modern. Yn anffodus i ni mae'r gerdd dan hawlfraint

Otanthus eto

Difyr darllen ynglyn ag **Otanthus** yn rhifyn diweddar LIN. [*Otanthus maritimus*, edafeddog y môr, Llwyn Bonheddig, môr-edafeddog, *cottonweed* (Planhigion Blodeuol; Conwydd a Rhedyn. Cymdeithas Edward Llwyd 2003)]



Adotaf ychydig mwy o wybodaeth, sef pwt o Welsh Bot, map BSBI [chwith] a tabl o'i ddsbarthiad yng Nghymru. Nes i baratoi hwn ar gyfer y ddarlith yn Nhanybwllch yn 2012 (ond doedd ddim cyfle i'w ddefnyddio).

Gareth Griffiths

Mae'r map yn diweddarur'r wybodaeth hanesyddol am y planhigyn hwn.

Kama swtra'r malwod



Dwy falwen yn caru (am wn i!). Tynnais y llun ryw bum mlynedd yn ôl. Yn rhyfedd iawn, maent yn caru ar y wal.

Sion Jones

Meddai Sion yn ddiweddarach: "Tynnais y llun tu allan i ddy fy chwaer sydd yn byw yng Nghaerdydd. Rwyf wedi edrych am y dyddiad a mae'r gwybodaeth yn dweud mae ar y 3ydd o Awst 2004. A finne'n meddwl ryw bedair blynedd yn ôl tynnwyd y llun".

Tydi amser yn hedfan pan rydych yn joiu cymaint! Dyma ambell osgo carwrol arall yn perthyn i'r falwen: lluniau gan **Steve Roddick**, **Ifor Williams**

Mae'n debyg mai **gwlithen llewpard** yw hon a hwn yw dull arferol hon i garu **This species has a very unusual and distinctive mating method, where the pair of slugs use a thick thread of mucus to hang suspended in the air from a tree branch or other structure*".

Cynhaef yd


Addawyd yn y **rhifyn diwethaf** (tudalen 2) i ddangos cofnodion eraill o'r cyfnod 1800-1850. Yn anffodus roedd yr holl gofnodion cynaeafu yd yn dyddio o 1850 ymlaen ac felly ddim yn cymharu a'r graff hwnnw. Er yr holl wybodaeth (106,000 o gofnodion yn y Tywyddiadur), mae yna fylchau o hyd. Gair i gall chwi sydd yn cadw dyddiaduron teulol - dewch a nhw i olau dydd!

Hela geiriau gwyllt

Mae **gwasanaeth geiriadurol ar-lein Collins** yn rhyfeddol! Pwy fuasa'n meddwl bod y defnydd o eiriau yn adlewyrchu gwirioneddau am y byd go-iawn. Dyma i chi ddau enghraifft o fyd natur, sef amllder y defnydd mewn dogfennau dros 300 mlynedd o'r geiriau Saesneg am "**petrisen**" ac am "**grugiar**".


► Trends of 'partridge'

View usage over: Last 300 years



► Trends of 'grouse'

View usage over: Last 300 years



Tybiaf bod y cyntaf efallai yn adlewyrchu disodli drylliau hen ffasiwn gan y **breach-loader** (ac wedyn

► Trends of 'terrorist'

View usage over: Last 300 years



diflaniad graddol y betrisen yng ngwyneb ffermio fodern). Gallai'r ail arwyddo llanw a thrai trefn gymdeithasol y **grouse-moor**. Sylwadau?

Rhag ofn i chi feddwl bod pob gair yn dangos patrwm tebyg, dyma i chi'r graff am "**derfysgwr**"! Gol

Yr hen giang fwcog

Mi ddois ar draws y gair mwcog mewn llythyr o'r 80au i fy nhad gan ddyn o'r enw Lewis Jones o Fôn. Fel hyn mae o'n sgwennu: 'Efallai eich bod yn gwybod am y Parchedig Wm Williams sydd yn weinidog ar hyn o bryd yn Harlech. Mae wedi ei fagu yn yr ardal hon; byddai ei dad yn arfer dod yma i weithio yn y cynhaeaf gwair. .. mi oedd y ddau mewn oed mawr, ac wedi i ni gael y llwyth dwytha i mewn, meddai, " wel mi ydych wedi cael y gwair, hefo hen giang fwcog fel ni!" Mi wyddoch beth yw mwcog, sef y beris coch sydd ar **Rhosys gwiltion**, ar ôl i'r rhosys orffen. Mi oedd yn cyffelybu ei hun i rosyn wedi darfod!'


Oes 'na rywin yn gyfarwydd efo'r gair? **Morwen Jones**
Enw tyddyn ym Mon, Bryn Mwcog. Gweler **Bwletin 99** tud 6 am ffug enwau...

O'r Dyddiaduron


Thomas Jones, Cwningar, Niwbwrch 1878

Tach 23..."**Dau fochun i Hugh Cyflog gauaf Hugh Dwad iw Le**"

Tach 25..."**Richard At Llan gefni Nôl cymit mant i Hugh carag yr eithin...**"



Heb glywed am was yn cael dau fochyn yn gyflog am y gauaf o'r blaen...



Tybed am beth oedd '**commitment**' yn y dyddiau hynny? Oedd hyn yn beth arferol?

Brenda Jones

Siobyn gwelw neu'r "hopysgi"

Ydy'r **lindysyn 'ma** yn gyffredin yng Nghymru? Neu'n estroniad ac angen fisa ar ôl Brexit! Ydy'r lindysyn yn saff i'w gyffwrdd? Newydd symud allan o'r dref ydyn ni!
Dafydd ab Iago, Tervuren 3080, België



Pla o lindys y siobyn gwelw yn ymosod ar goed ffawydd yn **hydref 1998 yn Nenmarc**. Enw cyweinwyr hopys Caint arnyn nhw oedd **hop dog** un o'r ychydig o enwau gwerinol yn y Saesneg ar lindysen (un arall yw **woolly bear**). Ei enw (bathedig yn Oes Fictoria) yw **pale tussock**.

Mae Olwen Evans, Rhostryfan, yn ei gymharu â 'brwsh dannedd bach ffansi'.



Llygad y Dydd

CYMDEITHAS
GWAITH MAES
arwain addysg yr amgylchedd yng Nghymru

Ŵy pwy tybed? Fedrwch chi adnabod pa greadur morol sydd bia'r wyau yma

Atebion i gyrraedd golygyddol@gwaithmaes.org erbyn 31ain o Ragfyr 2016. Cofiwch fod gwobr o £10 i'r ennillydd.



Marc bonws os gallwch ddweud wrthym beth yw stori yr "wyau" yma?

